



640 O mor ddymunol yw cael cwrdd

O mor ddymunol yw cael cwrdd
 âm hoff Anwylyd wrth ei fwrdd,
 ymlonni yn el gariad llawn
 a thawel orffwys ar yr Iawn.

Mae'r fath hawddgarwch yn ei bryd,
 gwledd felys yw, na wŷr y byd:
 fy nefoedd yw bod ger ei fron
 yn siriol wedd ei wŷneb llon.

Ymrwymiad adnewyddol yw
 i rodio a bodloni Duw,
 a phrawf o gariad Brenin nef,
 ei ddoniau a'i ffyddlondeb ef.

Y cof o'i angau ef a'i ras
 farweiddia'n llwyr fy mhechod cas;
 myfyrio loes Iachawdwr byd
 a wywa'r llygredd oll i gyd.

641 Ar ddydd ein bedydd gwnaethpwyd ni

Ar ddydd ein bedydd gwnaethpwyd ni
yn rhan o deulu dinas Duw;
croesawyd ni i gorlan Crist,
ac ef yw'n Bugail da a'n llyw.

Ar ddydd ein bedydd galwyd ni
yn blant y Tad a'i gariad ef,
aelodau byw am byth i Grist
ac etifeddion teyrnas nef.

Ar ddydd ein bedydd rhwymwyd ni
i gefnu ar bob drwg a chas,
i gredu yn y Drindod Iau
a dilyn llwybrau union gras.

Ar ddydd ein bedydd enwyd ni
a rhoddwyd arnom lun y groes;
o dan ei faner milwyr ým
dros deyrnas Iesu ddyddiau'n hoes.

Ar ddydd ein bedydd golchwyd ni
o'r pechod oesol sydd mewn dyn,
ac impiwyd ni mewn gobaith gwir
ym mywyd newydd Crist ei hun.

Ar ddydd ein bedydd plannwyd ni
yn nyffryn teg y dyfroedd byw:
boed inni dyfu yno'n ir
a ffrwytho'n bér er clod i Dduw.